# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **15 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd** |

**Rheol Sefydlog 30C – Gosod Offeryn Statudol yn Senedd y DU sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli**

**Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020 - cadarnhaol**

**Trosolwg Polisi o’r Offeryn Statudol (OS)**

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a wnaed y llynedd gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru fel rhan o'r ymarfer cywiriadau ar gyfer Ymadael â'r UE heb gytundeb yn 2019 i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n gywir. Mae'r Offeryn Statudol yn gymwys i'r DU gyfan a disgwylir iddo ddod i rym yn union cyn dyddiad cwblhau'r broses weithredu (11pm 31 Rhagfyr 2020).

Mae'r Offeryn Statudol yn diwygio Rheoliadau 2019 er mwyn galluogi'r darpariaethau a ddiwygir gan y Rheoliadau hynny i barhau i weithredu'n effeithiol yng ngoleuni Protocol Gogledd Iwerddon ar ôl y cyfnod gweithredu.

Nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r OS hwn.

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019

**Diben y diwygiadau**

Darpariaethau perthnasol yr offeryn statudol yw gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon, lle caiff Gogledd Iwerddon ei thrin fel pe bai'n Aelod-wladwriaeth (yn amodol ar yr addasiadau i gyfraith yr UE a wnaed gan Brotocol Gogledd Iwerddon), ac fel rhan gyfansoddol o'r DU. Mae'r darpariaethau'n cyfyngu ar y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau 2019 i Brydain Fawr, sy'n golygu bod y gyfraith bresennol yn parhau i fod ar waith ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma:

The Quality and Safety of Organs Intended for Transplantation (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r Offeryn Statudol yn diwygio Offeryn Statudol ymadael â’r UE mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch organau. Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Nid yw'r OS yn golygu y caiff unrhyw swyddogaethau eu trosglwyddo i nac oddi wrth Weinidogion Cymru, ac nid yw ychwaith yn rhoi unrhyw swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar ddiogelwch ac ansawdd organau. Mae'r OS yn diwygio Rheoliadau 2019 a wnaed ar sail Cymru a Lloegr, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r ymarfer cywiriadau ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n gywir. Felly, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio unwaith yn rhagor i OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd i gleifion a darparwyr. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.